**GORCHYMYN YR R41 LLANARTH ROAD, LLANARTH, SIR FYNWY (TERFYN CYFLYMDER 30 MYA DROS DRO AR GYFER CERBYDAU ESEMPT) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar ran Cyngor Sir Fynwy yn unol â threfniadau a wnaed rhwng Cyngor Sir Fynwy a Gweinidogion Cymru o dan adran 83(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi gwneud Gorchymyn, drwy arfer eu pwerau o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal digwyddiad beicio yr “Open Road Cycle Race” yn Llanarth, Sir Fynwy a gerllaw iddo.

Effaith y Gorchymyn yw rhoi caniatâd dros dro i gerbydau modur a ddefnyddir gan swyddogion awdurdodedig y digwyddiad gael eu gyrru heb fod yn gyflymach na 30 mya ar y darn o briffordd leol yr R41 Llanarth Road, Llanarth, Sir Fynwy, sy’n ymestyn o’r arwydd cyfyngiad cyflymder 20 mya a leolir 30 o fetrau i’r de-orllewin o’i chyffordd â Parsonage Road, hyd at yr arwydd cyfyngiad cyflymder a leolir 375 o fetrau i’r de o’i chyffordd â Ty Newydd Road.

Bydd hyn yn eu galluogi i fod ychydig o flaen y ras er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o sicrhau bod y ffordd yn glir a dal traffig, pan fo’n briodol. Bydd yn gweithredu “swigen ddiogelwch” a ddylai sicrhau bod y ras yn cael ei chynnal yn ddiogel i feicwyr a’r cyhoedd.

Daw’r Gorchymyn i rym ar 31 Awst 2026 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir mai dim ond rhwng 10:00 o’r gloch a 14:00 o’r gloch y bydd y cyfyngiad yn weithredol.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE R41 LLANARTH ROAD, LLANARTH, MONMOUTHSHIRE (TEMPORARY 30 MPH SPEED LIMIT FOR EXEMPTED VEHICLES) ORDER 2026**

The Welsh Ministers, acting on behalf of Monmouthshire County Council pursuant to arrangements made between Monmouthshire County Council and the Welsh Ministers under section 83(1) of the Government of Wales Act 2006, have made an Order, in exercise of their powers under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 and section 83 of the Government of Wales Act 2006, which is necessary to hold the “Open Road Cycle Race” cycling event at and near Llanarth, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily allow motor vehicles being used by authorised event officials to be driven at a speed not exceeding 30 mph on the length of the local highway R41 Llanarth Road, Llanarth, Monmouthshire, that extends from the 20 mph speed restriction sign located 30 metres south-west of its junction with Parsonage Road, to the 30 mph speed restriction sign located 375 metres south of junction with Ty Newydd Road.

This will enable them to get a short distance ahead of the race to carry out their duties of ensuring the road is clear and holding traffic, where appropriate. It will implement a “safety bubble” that should ensure that the race is delivered safely for riders and the public.

The Order comes into force on 31 August 2026 and has a maximum duration of 1 day. The restriction is only expected to operate from 10:00 hours to 14:00 hours.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government